***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 50

# Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2016

**Diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013**

**30.** Yn Atodlen 8 (diystyriadau cyfalaf: pensiynwyr)—

(a) ar ôl paragraff 27 mewnosoder—

"**27A.** Pan fo person yn dewis yr hawl i gael cyfandaliad o dan adran 8(2) o Ddeddf Pensiynau 2014 neu'n unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 10 o'r Ddeddf honno, neu'n methu â gwneud dewis, a bod cyfandaliad wedi ei wneud, swm sy'n hafal i

(a) ac eithrio pan fo is-baragraff (b) yn gymwys, swm unrhyw daliad neu daliadau a wneir ar gyfrif y cyfandaliad hwnnw; neu

(b) swm y cyfandaliad hwnnw,

ond hynny cyhyd, yn unig, nad yw'r person hwnnw'n newid y dewis hwnnw o blaid cynnydd mewn pensiwn.";

(b) ym mharagraff 28—

(i) ar ddiwedd is-baragraff (d) hepgorer "neu";

(ii) yn is-baragraff (e) yn lle "." rhodder ";";

(iii) ar ôl is-baragraff (e) mewnosoder—

"(f) adrannau 50 i 53 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; neu

(g) adran 33 o Ddeddf Gofal 2014."